**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1242
Ein cyf/Our ref EM/14731/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

18 Ionawr 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Rhagfyr ynglŷn â Deiseb P-06-1242 Gwella Gofal Iechyd Endometriosis yng Nghymru.

Deallaf fod endometriosis yn gyflwr sy'n effeithio ar nifer sylweddol o fenywod. Fel y dangosir yn y ddeiseb gan Ms Hales, mae'r effaith ar ansawdd bywyd menywod yn gallu bod yn enfawr, a gall y broses o gael diagnosis o endometriosis fod yn hir iawn. Er gwaethaf ymdrechion i newid pethau, rwyf hefyd yn ymwybodol bod diffyg dealltwriaeth ynglŷn ag endometriosis ymhlith rhai gweithwyr iechyd proffesiynol o hyd, a bod y ddarpariaeth bresennol, ar adegau, yn islaw i'r hyn yr ydym ni, a defnyddwyr gwasanaeth yn ei disgwyl.

Mae gan y byrddau iechyd gyfrifoldeb i ddarparu gwasanaethau gynaecoleg o safon uchel. Mae'n hanfodol eu bod yn sicrhau llwybrau gwydn ac effeithiol, sy'n cynnwys sicrhau diagnosis cynnar ar gyfer ymdrin ag endometriosis yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Mae canllawiau NICE yn rhoi llwybr clir sy'n rhestru symptomau endometriosis. Mae'r canllawiau hefyd yn rhoi arweiniad i weithwyr gweithwyr gofal iechyd proffesiynol o ran pryd y dylid cyfeirio menywod at wasanaethau gynaecoleg ar gyfer archwiliad uwchsain neu farn gynaecoleg. Ym mis Awst 2018, ysgrifennodd swyddogion Llywodraeth Cymru at y byrddau iechyd gan ofyn iddynt am sicrwydd bod gwasanaethau yn cael eu darparu yn unol â chanllawiau NICE ar endometriosis. Cadarnhaodd yr holl fyrddau iechyd eu bod yn cydymffurfio â'r canllawiau.

Ym mis Mawrth 2018, sefydlwyd y Grŵp Gweithredu ar Iechyd Menywod fel grŵp a gaiff ei gyfarwyddo gan weinidogion er mwyn ystyried adroddiadau ynghylch y defnydd o dâp synthetig a chynfasau rhwyllog ar gyfer anymataliaeth wrinol straen a phrolaps organau'r pelfis, endometriosis ac anymataliaeth ysgarthol. Ers ei sefydlu, mae £1m wedi'i ddyrannu i'r grŵp yn flynyddol er mwyn cefnogi'i weithgareddau. Mae'r cyllid hwn wedi'i ddefnyddio er mwyn sefydlu rhwydwaith o gydlynwyr sy'n ymwneud ag iechyd y pelfis a llesiant ymhob bwrdd iechyd ac maent eisoes yn chwarae rhan hanfodol wrth fynd i'r afael â materion cydgysylltiedig ym meysydd iechyd y pelfis ymysg menywod. Maent hefyd yn cefnogi menywod ac yn eu cyfeirio ymlaen at wasanaethau priodol gan gynnwys gwasanaethau ffisiotherapi a gwasanaethau rheoli poen pan fo hynny'n briodol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn fwy diweddar, mae’r Grŵp Gweithredu ar Iechyd Menywod hefyd wedi cefnogi'r broses o recriwtio rhwydwaith o nyrsys endometriosis arbenigol ym mhob bwrdd iechyd. Mae hyn er mwyn datblygu llwybrau cenedlaethol i helpu i leihau’r amser y mae’n cymryd i roi diagnosis ledled Cymru. Mae hyn yn fodd o sicrhau unwaith eto bod menywod sydd â’r cyflwr yn cael eu cefnogi’n llawn wrth iddynt gael triniaethau, neu aros amdanynt. Mae’r grŵp wedi parhau i gydweithio â’r byrddau iechyd er mwyn sicrhau bod adnoddau nyrsio endometriosis yn cael eu cyflwyno’n llawn, a bod Cymuned o Ymarferwyr yn cael ei sefydlu ledled Cymru.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services